

MEINIR
PIERCE
JONES



To

Meinir Pierce Jones

Pennod 1

Dwi ddim yn gweithio ar ddydd Gwener, ac eto yma ydw i. Does 'na ddim hanas o fawr o neb arall. Ddaw yna neb bellach chwaith, mae 'mhell wedi amsar cychwyn. Felly mae'n fi, ac wedyn arweinydd gweithredol y prosiect treftadaeth Gwireddu'r Freuddwyd, Gwil Alwyn (un o'r bobol Cyngor 'ma sy'n medru siarad drwy'i geg a'i din), y ddynas bach 'na o Bermo sy'n dod i bob cwarfod, a'r boi cyllid. Yn ista draw oddi wrthan ni a'i laptop o'i flaen. Ac ar hwnnw mae o'n sbio.

Pwyllgora 'de, pwy sgin fynadd? Pobol gydwybodol. Pobol sgin ddim dewis. Pobol sgin ormod o amsar ar 'u dwylo. Sycars. A phobol fatha fi. Ond wythnos gwas newydd ydi hi o hyd i mi yndé, ddo i i ddallt sut mae petha'n gweithio toc. Ddysga i. Weithia mae rhywun yn gorfod mynd i'r petha 'ma, a dyna hi. A weithia mae'n well i ti beidio. A weithia mi fasa well gin ti beidio.

Trwy'r ffenast does yna ddim byd ond wal goncrit a chloman. Fel sbio drwy ffenast jêl, ar 'y marw. Y peth nesa dafna o law ar y gwydr. Mae'n mynd o ddrwg i waeth yma. Cha i ddim hyd yn oed tro ar y traeth ar y ffordd adra, beryg.

Daw llais pwysig Gwil Alwyn ar draws fy meddylia crwydrol i:

'Kelfin, tybad fasat ti yn lecio deud rhywbath wrthan ni am y sefylla o ran hawlio grantia? Diolch o galon i ti, boi.' Mae o'n gofyn mor neis, mae'n mynd ar 'n blydi nyarfs i. 'Wnawn ni yrru e-bost i bawb wrth gwrs, ond gweld bod chi'ch dwy yma, ac wedi gneud yr ymdrech. 'Dan ni wir yn gwerthfawrogi'ch bod chi wedi troi fyny bore 'ma eich dwy, tydan Kelfin. Trwpar. A does 'na ddim byd fel cael y neges o lygad y ffynnon. Taro'r haearn tra bo'n boeth, 'te genod!'

Mae'r ddwy ohonan ni'n sbio ar ein gilydd. A fynta, macnabs, wnaeth o sylwi tybad, yn dechra codi sbîd, yn mynd drwy'i bregath yn gynt ac yn gynt i drio'n cadw ni efo fo:

“Dan ni’n ymrwymedig i gael y prosiect ‘ma yn gwbwl weithredol, rŵan, gyntad ag y gallwn ni. Dyna ydi’r genadwri yn y bôn. Mae’r ffenast amser yn weddol dynn, mae o’n brosiect amser penodol o ddwy flynnadd, felly allwn ni ddim fforddio loetran. Mi fydd angen i bob dim fod yn bang-on o ran y gwaith papur ac ati, mae’n fwy anodd cadw rheolaeth efo tîm allanol, bob amser ...”

Mae Gwil Alwyn yn edrach yn benodol ar Miss Bermo rŵan ac wedyn arna fi. Dwi inna wedi sylwi’i bod hi wedi estyn ‘i chrosio o’i handbag.

‘Ia, ‘dan ni angan dechra hawlio’r arian grant cyn diwadd y flwyddyn ariannol bresennol.’ Mae Kelfin Cyllid Strong wedi deffro o’r diwadd; mae o’n sythu ac yn chwara efo’i fwestâsh melyn. ‘Mae hi’n drydydd o Fawrth heddiw, dydi. Deud gwir ‘de, dwi’n edrach i gael y clêms cynta i mewn erbyn Pasg. Dydi tîm Port ddim yma heddiw, ond maen nhw mor-o-lës wedi cael eu clêm nhw at ‘i gilydd, ac mae criw dre yn eitha sortyd.’

Mae o’n sbio arnon ni’n dwy wedyn. Ond mae’r Bermo Bêb yn barod amdano fo:

“Dan ni am ei neud o mewn dau glêm. Y clêm cynta. Ac wedyn yr ail. Medi yma a Septembyr nesa. Mae Rob Ainsworth yn mynd i ffonio chi ddechra’r wsnos. Fo sy’n mynd i neud y gwaith papur. Mae o off i Tenerife wsnos yma.’

Dydi Kelfin ddim am gymryd hyn yn ista i lawr:

‘Fasan ni’n lecio i chi glêmio mesul chwatar, rili. Mae o’n daclusach i ni yn acownts, ylwch.’

Ond joban wirfoddol ydi hon i Miss Bermo. Does yna neb yn mynd i’w gwneud hi ond y hi. Roedd yn rhaid cael Bermo yn y prosiect i dicio’r bocsys. Heb Bermo, fasa’r cais Gwireddu’r Freuddwyd byth bythoedd wedi cael y gola gwyrdd. Bermo fel petai oedd y secret weapon. Tre yng ngwaelod y sir – mewn ardal dena’i phoblogaeth oedd yn sgrechian am ddatblygiad newydd deinamig ac atyniadol. A Chymreig. Mae’r ddau ohonyn nhw’n gwybod hynny gystal â’i gilydd.

Unig atab Miss Bermo iddo fo ydi estyn pellan arall o ddafadd fflwffi a chario ‘mlaen efo’i siôl babi.

Ac felly mae Kelfin yn troi oddi wrthi hi efo hyff bach ac yn sbio arna i:

‘Be amdanach chi?’ Mae o’n edrach ar y cofnodion. ‘Tonwen.’

A dwi’n teimlo rhyw bowltan bach yn dechra tynhau tu mewn i mi. Pam na faswn i wedi aros adra a lltau car neu ryw bath?

